# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Glyn Haynes a T Ll Hughes MBE |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2020 a cadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad ysgrifenedig a oedd wedi'i gylchredeg ymlaen llaw a rhoddodd adroddiad llafar mewn perthynas â'r swydd uchod.

Bu’r Prif Weithredwr argymell y dylai teitl y swydd adlewyrchu’n well y cyfrifoldebau sy’n gysylltiedig â’r swydd ac y dylid ei newid i ‘Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle’ ac y dylid hysbysebu’r swydd cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD:-**

- **diwygio teitl y swydd i ‘Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Lle’;**
- **hysbysebu’r swydd cyn gynted â phosibl.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**